OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2022 No. 1259

Rheoliadau Cynllun Morol, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cymorth Ariannol) (Cymru) 2022

RHAN 3

Talu grantiau a gwneud benthyciadau gan Weinidogion Cymru

Amrywio, atal dros dro a dirymu cymeradwyaeth

11.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru, ar unrhyw adeg cyn i'r grant neu'r benthyciad gael ei dalu'n llawn, atal dros dro neu ddirymu'r gymeradwyaeth, yn llawn neu'n rhannol, neu amrywio amod sy'n gysylltiedig â'r gymeradwyaeth (gan gynnwys ychwanegu neu ddileu amodau).

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r ceisydd am benderfyniad a wneir o dan baragraff (1).